CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI, Y GYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Y TÎM COMISIYNU

Adroddiad Monitro Contract

Enw'r Darparwr:	**Pobl (Reach gynt)**
Enw'r Gwasanaeth Gofal Ychwanegol:	**Cefn Glas**
Dyddiad/Amser yr Ymweliad:	**21 Chwefror, 17 Ebrill a 13 Mehefin 2019**
Swyddog(ion) fu'n Ymweld:	**Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contract**
Yn bresennol:	**Karen Cheese, Rheolwr Gofal Ychwanegol** **Leanne Love, Dirprwy Reolwr Gofal Ychwanegol**

1 Cefndir

1.1 Mae Pobl wedi bod yn darparu cymorth gofal cartref ym Mwrdeistref Caerffili ers sawl blwyddyn, mewn ystod o wasanaethau byw â chymorth a gofal ychwanegol. Ym mis Rhagfyr 2017, dyfarnwyd contract newydd i Reach i barhau i ddarparu gofal a chymorth yng Nghefn Glas.

1.2 Derwen yw landlord Cefn Glas.

1.3 Mae'r ystod o dasgau gofal a chymorth a ddarperir gan Pobl o dan y contract yn cynnwys gofal personol (e.e. cymorth yn ymolchi, gwisgo, cymryd meddyginiaeth, tŷ bach, bath), gofal maethol (e.e. cymorth gyda bwyta ac yfed, paratoi bwyd a diod a monitro bwyd a diod), gofal symudedd (e.e. cymorth gyda mynd i mewn ac allan o'r gwely, symud yn gyffredinol) a gofal domestig (e.e. cymorth gyda glanhau, siopa, gwaith tŷ arall, trefnu apwyntiadau). Mae staff ar y safle ar bob adeg, ac mae modd i denantiaid gysylltu â nhw ar unrhyw adeg drwy ddefnyddio teleofal.

1.4 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, rhoddir camau unioni a chamau datblygu i'r darparwr eu cymryd. Camau y mae'n rhaid eu cymryd yw camau unioni (yn unol â deddfwriaeth neu gontract Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili), ac argymhellion arfer da yw camau datblygu. Ar adeg yr ymweliadau monitro, roedd y darparwr yn aros i gael ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol newydd.

2 Argymhellion Blaenorol

2.1 <u>Camau unioni</u>

2.1.2 Dylai cofnodion dyddiol fod yn fwy personol a manwl, ac wedi'u cysylltu â'r wybodaeth a'r canlyniadau a ddangosir yn y cynllun cyflawni gwasanaeth a'r dogfennau atodol (megis y ddogfen nodau a dyheadau). Byddai'n fanteisiol newid fformat y taflenni cofnodion dyddiol, i ganiatáu rhoi mwy o wybodaeth *(Manyleb Gwasanaeth Gofal*

Ychwanegol) **Cyflawnwyd**

2.1.3 Cynlluniau cyflenwi gwasanaeth i nodi'r amseroedd y cytunwyd arnynt rhwng y darparwr a'r defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer galwadau gofal cartref. *(Manyleb Gwasanaeth Gofal Ychwanegol)* **Wedi'i gyflawni'n rhannol**

2.1.3 Reach i sicrhau y caiff unrhyw gefnogaeth a ddarperir yn ystod amser cinio neu swper ei chofnodi yn y cofnodion dyddiol, neu wneud *cofnod* ar wahân i egluro galwadau a fethwyd. *(Safon Ofynnol Genedlaethol 16.1)* **Cyflawnwyd**

2.1.4 Reach i sicrhau bod nifer yr oriau a hyd y galwadau a nodir ar yr ISC yn cyd-fynd â'r amser dynodedig ar amserlenni'r gofalwyr *(Contract Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)* **Cyflawnwyd**

2.1.5 Reach i sicrhau bod amseroedd dechrau a diwedd yn cael eu cofnodi ar gyfer pob galwad yn y cofnodion dyddiol. *(Contract Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)* **Wedi'i**

2.2 **gyflawni'n rhannol**

2.2.1 Camau datblygu

3 Anogir Reach i gwblhau dogfen hanes bywyd (neu debyg) ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.

3.1 **Canfyddiad**

3.1.1 Perfformiad Gwasanaeth

Edrychwyd ar dair amserlen staff, ac ymddengys y gwneir ymdrech i sicrhau bod yr amserlenni'n cyd-fynd â'r amseroedd a nodwyd gan yr unigolion. Wrth edrych ar ffeil 3 thenant, roedd yr amser a oedd wedi'i gofnodi yn cyd-fynd â'r amser a nodwyd gan yr unigolion yn achos 2 o'r 3. Roedd y trydydd yn drefniant mwy hyblyg; ond dim ond un o'r tri thenant oedd wedi llofnodi'r cytundeb amser.

3.1.2 Mae modd i unigolion sy'n byw yng Nghefn Glas alw am gymorth drwy ddefnyddio'r system teleofal sydd ar waith. Mae aelod o staff ar y safle ar bob adeg, gan gynnwys dros nos. Gellir rhoi gwybod i'r aelod o staff sydd ar ddyletswydd nos am unrhyw alwad drwy'r gweithredwr teleofal.

3.1.3 Yn yr adroddiad monitro blaenorol, nodwyd bod rhai tenantiaid yn anhapus gydag ansawdd y bwyd o ganlyniad i newid arlwywyr. Yn ôl un unigolyn y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad diweddaraf roedd y bwyd wedi gwella. Roedd yr ail unigolyn wedi symud i'w fflat yn ddiweddar, ac roedd yn canmol amgylchedd ei gartref newydd a'r staff yn fawr.

3.1.4 Wrth edrych ar y cofnodion dyddiol, roedd yn amlwg yr ymdrechir i sicrhau bod rhywfaint o gysondeb o ran gofalwyr.

3.2 Cynllun Gwasanaeth a Dogfennau

3.2.1 Gwelwyd bod yr holl ddogfennau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet â chlo.

3.2.2 O'r tair ffeil tenantiaid a archwiliwyd, dim ond un oedd â hanes bywyd manwl. Roedd

un unigolyn wedi gwrthod cwblhau ei hanes bywyd, ac nid oedd gan y trydydd hanes bywyd; ond nodwyd hoffterau a chas bethau, ynghyd â nodau.

3.2.3 Fel arfer panel sy'n dyrannu tenantiaethau unigolion sy'n byw yn y cynllun; felly yn y gorffennol, ni wnaed asesiadau cychwynnol gan reolwr y cynllun. Fodd bynnag, cyflwynwyd hyn yn ddiweddar er mwyn cael rhagor o wybodaeth gan yr unigolion ac i bennu addasrwydd unigolyn.
Wrth ddechrau yn y cynllun, bydd yr asesiad yn bwydo i'r cynllun cyflawni gwasanaeth. Roedd y cynlluniau gwasanaeth a archwiliwyd yn adlewyrchu Cynllun Gofal a Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd yr unigolion wedi nodi eu dewisiadau o ran amseroedd galw. Fodd bynnag, roedd un dewis a nodwyd yn wahanol i'r amseroedd ar y rota. Tynnwyd sylw'r Dirprwy Reolwr i hyn, a eglurodd fod yr unigolyn wedi newid eu meddwl ac wedi gofyn am alwad gynt er mwyn cymdeithasu â thenantiaid eraill.

3.2.4 Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar y tenant a phryd mae angen anogaeth, ac felly'n cynnal a hyrwyddo annibyniaeth unigolyn.

3.2.5 Roedd y tri chynllun a ddarllenwyd wedi'u llofnodi gan y tenantiaid. Roedd hyn felly'n profi eu bod wedi bod yn rhan o'u datblygu.

3.2.6 Wrth edrych ar yr amseroedd galw o'u dewis ochr yn ochr ag amserlenni'r staff, nodwyd yn achos un unigolyn bod y staff yn cymryd llai o amser ar gyfer rhai galwadau. Trafodwyd hyn gyda'r Dirprwy Reolwr ar adeg yr ymweliad. Wrth edrych ar amserlen arall, nodwyd bod rhai aelodau staff yn aros yn hirach mewn galwad gofal personol benodol. Pan ofynnwyd a oedd angen amser ychwanegol, dywedodd y Dirprwy Reolwr ei bod yn teimlo bod yr amser dynodedig yn ddigonol.

3.2.7 Gwelwyd bod Asesiadau Risg yn bresennol, er enghraifft cyflwr croen. Roedd yr asesiadau wedi'u hadolygu yn ystod y tri mis diwethaf ar adeg yr ymweliad cyntaf. Dylid adolygu Asesiadau Risg a chynlluniau gwasanaeth yn rheolaidd, gan adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn anghenion unigolyn.

3.2.8 Roedd cofnodion dyddiol wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y gofalwyr presennol, gan gofnodi amseroedd i mewn ac allan. Er hyn, roedd nifer fach o achosion lle nad oedd gofalwr wedi llofnodi wrth adael, a phan roedd dau ofalwr wedi ymweld, dim ond un oedd wedi llofnodi.

3.2.9
Cesglir y cofnodion dyddiol bob dydd Sul, ac mae'r Rheolwr yn eu darllen ar y dydd Llun. Caiff unrhyw faterion a nodwyd eu trafod gyda'r aelodau priodol o staff.

3.3 <u>Recriwtio, Hyfforddi a Goruchwylio</u>

3.3.1 Edrychwyd ar ffeil dau aelod o staff, a gwelwyd bod y dogfennau priodol yn bresennol, hynny yw disgrifiad swydd a llun. Cedwir dogfennau eraill, megis ffurflenni cais, cofnodion cyfweliad, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ati yn y brif swyddfa.

3.3.2 Cefnogir staff i gyflawni eu swydd gyda chyfuniad o oruchwyliaeth, hapwiriadau a chyfarfodydd tîm. Cânt eu goruchwylio bob tri mis, cynhelir cyfarfodydd tîm bob tri mis, a chynhelir hapwiriadau bob chwe mis.

3.3.3 Gwelwyd y matrics hyfforddi, ac roedd yn dangos bod staff yn mynychu cyrsiau

hyfforddi a diweddaru yn ôl yr angen. Gwelwyd bod hyfforddiant gofynnol yn gyfredol, ac roedd staff wedi bod ar gyrsiau Diogelu, Codi a Symud, Rheoli Heintiau, Meddyginiaethau, Hylendid Bwyd a Chymorth Cyntaf.

3.3.4 Cedwir rhai tystysgrifau yn ffeiliau'r staff, a chedwir rhai eraill yn y brif swyddfa.

3.3.5 Mae'r darparwr yn defnyddio cwrs cynefino yn seiliedig ar Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol.

4 Cyffredinol

4.1 Yn ystod yr ymweliad, siaradodd y swyddog monitro gydag aelod o staff a ddywedodd fod ganddynt ddigon o amser i gyflawni'r hyn sydd ei angen. Roedd yr aelod o staff yn teimlo bod y darparwr yn eu cefnogi, a bod gwybodaeth briodol ar gael iddynt cyn i unigolyn ddechrau tenantiaeth; ac felly mae'r staff yn teimlo eu bod eisoes yn adnabod y tenant newydd. Dywedwyd wrth y swyddog monitro nad yw'r wybodaeth a ddarperir i'r staff weithiau'n cyfateb i sut mae'r unigolyn yn cyflwyno ar ôl cyrraedd. Gobeithir drwy gynnal cyn-asesiad yng Nghefn Glas, ni fydd hyn yn digwydd bellach.

4.2 Dywedodd yr aelod o staff y cyfwelwyd â nhw eu bod, fel staff gofal, yn cael llawer o gefnogaeth ac y cânt lawer o gyfleoedd i "wella" a chael rhagor o gyfrifoldebau.

4.3 O ran y Cynnig Rhagweithiol – Mwy na Geiriau, rhoddwyd gwybod i'r swyddog monitro nad oedd dim un o'r tenantiaid yn siarad Cymraeg ar adeg yr ymweliad. Ceir yr wybodaeth hon o ffurflenni cais tenantiaid unigol. Fodd bynnag, mae gan Cefn Glas rai aelodau o staff sy'n siarad ychydig o Gymraeg.

5 Camau Unioni a Datblygu

5.1. Unioni

5.2 Yr amseroedd o ddewis i ddangos bod y tenant yn cytuno; ac felly, dylai Pobl sicrhau bod tenantiaid yn llofnodi'r amseroedd y cytunir arnynt. (Contract Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2.8)

5.3 Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir. Gellir cyflawni hyn drwy gasglu safbwyntiau'r tenantiaid/cynrychiolwyr, y comisiynwyr gwasanaeth, a'r staff. (Contract Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2.8)

6 Camau datblygu

6.1 Cynnal gwaith pellach er mwyn ymgorffori rhagor o wybodaeth am hanes bywydau'r tenantiaid. Bydd hyn yn cynorthwyo staff newydd i gael dealltwriaeth well o'r unigolion maent yn eu cynorthwyo.

6.2 Atgoffa staff i gwblhau cofnodion dyddiol yn llawn, hynny yw llofnodi wrth ddod i mewn ac allan.

7 Casgliad

7.1 Roedd yn galonogol gweld bod nifer o'r camau unioni wedi'u cymryd, a bod yr

ymweliad yn gadarnhaol ar y cyfan, a darparwyd adborth cadarnhaol gan y staff a'r tenantiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

7.2 Hoffai'r Swyddog Monitro Contract ddiolch i staff a thenantiaid Cefn Glas am eu croeso yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts

Swydd: Swyddog Monitro Contract

Dyddiad: 18 Mehefin 2019

Noder: Bydd yr adroddiad hwn ar gael drwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os byddant yn gofyn am gael eu gweld.